



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Gylch Meithrin Llanfechell
Ysgol Llanfechell
Ffordd y Mynydd
Llanfechell
Amlwch
LL68 0SA**

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2020

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn â Chylch Meithrin Llanfechell

Enw'r lleoliad	Cylch Meithrin Llanfechell
Categori'r gofal a ddarperir	Gofal Dydd Llawn
Person(au) cofrestredig	Michelle Edwards a Linda Wyn Jones
Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol)	
Person â gofal	Anwen Parry a Sharon Williams
Nifer y lleoedd	18
Amrediad oedran y plant	2 – 4 oed
Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor	4
Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor	0
Diwrnodau / amseroedd agor	Dydd Llun i ddydd Iau rhwng 09.00-11.30y.b. Mae clwb gofal ar gael ar ddydd Llun, dydd Mawrth a dydd Iau rhwng 11.30y.b. a 15.00y.h.
Gwasanaeth Dechrau'n Deg	Nac ydi
Iaith y lleoliad	Cymraeg
A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn?	Ydi
Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol	Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth.
Dyddiad arolygiad blaenorol AGC	07/02/2017
Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn	02/06/2014
Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn	31/01/2020
Gwybodaeth ychwanegol Cymraeg yw prif iaith llawer o'r plant.	

Crynodeb

Thema	Barn
Lles	Da
Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)	dd/p
Gofal a datblygiad	Da
Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)	Da
Yr amgylchedd	Digonol
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Da

Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

Argymhellion

- A1 Gwella'r defnydd o'r amgylchedd awyr agored
- A2 Cyfoethogi profiadau dysgu'r plant trwy fynd ar ymweliadau a gwahodd ymwelwyr lleol i'r lleoliad
- A3 Sicrhau bod arweinwyr yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am werthuso ansawdd y ddarpariaeth a'i heffaith ar ddeilliannau plant

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Lles: Da

Mae rhan fwyaf y plant yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac yn eiddgar. Maent yn ymdopi'n dda iawn wrth wahanu oddi wrth eu rhieni neu ofalwyr ac yn ymgartrefu'n gyflym ar ddechrau sesiynau. Mae bron pob un yn gyfarwydd iawn â'r drefn ddyddiol ac yn mynd yn syth at eu gweithgareddau heb ffwdan. Er enghraifft, maent yn dilyn y drefn o olchi dwylo yn dilyn amser yn y neuadd a chyn bwyta byrbryd. Maent yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau, er enghraifft wrth dorri siâp calon yn y toes a chymryd rhan yn y gêm a'r gân "Beth sydd yn y fasged siopa?". Mae gan yr holl blant lais cryf ac maent yn gwneud penderfyniadau deallus wrth ddewis gweithgareddau a phrofiadau dysgu, er enghraifft wrth chwarae gyda'r bwyd yn y tŷ bach twt, neu gyda cheir bach yn y garej. Mae'r rhan fwyaf yn mynegi barn yn dda wrth drafod y tywydd yn ystod amser cylch ac wrth fynegi eu hoff weithgaredd. Maent yn gwybod y bydd ymarferwyr yn rhoi ystyriaeth dda i'w dymuniadau ac maent yn gwneud dewisiadau cadarn o ran beth maent am chwarae neu ddysgu.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn ffurfio cyfeillgarwch gydag eraill ac yn dysgu cyd-chwarae gyda'i gilydd yn effeithiol. Maent yn rhannu offer yn ddirwgnach ac yn cydweithredu a chymryd eu tro yn llwyddiannus, er enghraifft wrth rannu cyfarpar toes ac aros eu tro i olchi dwylo. Mae bron pob un o'r plant yn frwdfrydig ac yn mwynhau dysgu medrau newydd wrth iddynt brofi amrywiaeth o gyfleoedd dysgu a chwarae, er enghraifft wrth ddefnyddio pensil i wneud marciau ar bapur. Maent yn ddysgwyr chwilfrydig wrth arbrofi a thrin cyfarpar yn y blwch darganfod. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at eu dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas.

Mae bron pob un plentyn yn dod yn fwyfwy annibynnol wrth newid eu dillad eu hunain er mwyn mwynhau sesiwn symud yn y neuadd. Maent yn golchi eu dwylo ac yn mynd i'r tŷ bach yn annibynnol ac yn dechrau tywallt diodydd eu hunain. Mae'r plant yn dechrau cymryd cyfrifoldeb wrth fod yn 'Helpwr Heddiw' a chwblhau tasgau syml, er enghraifft trwy ddosbarthu cwpanau a phlatiau amser byrbryd.

Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): dd/p

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant oherwydd nid oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol

Gofal a datblygiad: Da

Mae'r ymarferwyr yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddiogelwch ac iechyd y plant. Mae pob un o'r ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant diogelu perthnasol a diweddar. Maent yn gyfarwydd iawn â gweithdrefnau'r lleoliad ac mae'r rhan fwyaf wedi mynychu hyfforddiant ar gyrsiau priodol fel cymorth cyntaf, hylendid bwyd ac amddiffyn plant. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Maent i gyd yn ymarfer gweithdrefnau hylendid da yn gyson ac yn golchi dwylo wrth annog y plant i wneud yr un fath. Mae'r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau da iawn ar gyfer cofnodi damweiniau neu anafiadau ac mae

asesiadau risg bras yn cael eu cofnodi yn ddyddiol. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd buddiol i'r plant fyw'n iach ac mae ymarferwyr yn atgyfnerthu pwysigrwydd iechyd y geg trwy annog y plant i frwsio dannedd yn ddyddiol. Cynigir amrywiaeth gwych o ffrwythau i'r plant adeg byrbryd er mwyn atgyfnerthu ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd bwyta'n iach. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gweithgareddau corfforol rheolaidd, er enghraifft trwy gymryd rhan mewn sesiwn ymarfer corff yn y neuadd gyda phlant yr ysgol leol. Mae'r ymarferwyr yn cynnal dril tân er mwyn addysgu'r plant sut i adael yr adeilad mewn argyfwng.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol a phositif ac maent yn delio ag unrhyw anniddigrwydd yn sensitif. Maent yn garedig ac yn addfwyn wrth siarad â'r plant ac mae hyn yn arwain at awyrgylch gadarnhaol a hamddenol. Mae ymarferwyr yn atgoffa'r plant yn ddyddiol o reolau'r lleoliad ac yn eu hysgogi i gyd-chwarae, rhannu a chymryd tro. Mae ymarferwyr yn canmol y plant yn rheolaidd ac yn atgyfnerthu eu hunanhyder yn llwyddiannus.

Mae gweithdrefnau cadarn i gefnogi plant ag anghenion addysgol arbennig ac mae'r lleoliad yn cydweithio'n agos iawn gydag asiantaethau allweddol fel therapyddion lleferydd ac ymwelwyr iechyd. Rhoddir gwybodaeth gynhwysfawr i rieni am gynnydd eu plant. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant a'u teuluoedd yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hanghenion, eu galluoedd a'u hoffter unigol. Maent yn darparu amgylchedd gofalgarg tu mewn ac yn rhoi anghenion y plant yn gyntaf wrth greu ardaloedd yn cynnwys tŷ bach twt, ardal rhifedd, cornel llyfrau ac ardal greadigol. Maent yn darparu cyfleoedd priodol i blant ddysgu am wahanol ddiwylliannau. Er enghraifft, maent yn dysgu am bobl yn byw yn Tsieina ac mae teganau a llyfrau yn adlewyrchu cymdeithas eang.

Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae gan yr holl ymarferwyr berthynas waith hyfryd gyda'r plant ac maent yn modelu iaith lafar yn naturiol wrth gyfathrebu â nhw. Maent yn atgyfnerthu patrymau iaith a geirfa gyfarwydd yn llwyddiannus trwy ddefnyddio caneuon a rhigymau yn bwrsol, er enghraifft i ddisgrifio'r tywydd ac i ddysgu dyddiau'r wythnos. Yn gyffredinol, mae'r ymarferwyr yn gwybod pryd i ymyrryd a phryd i adael y plant i ymchwilio a darganfod drostynt eu hunain. Maent yn holi plant yn ddeallus ac yn eu hannog i sgwrsio wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae hyn yn atgyfnerthu eu medrau cyfathrebu yn effeithiol ac yn datblygu eu dealltwriaeth a'u medrau meddwl yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau nawws ac ethos Cymreig cryf o fewn y lleoliad, ac yn hyrwyddo traddodiadau a dathliadau Cymreig yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r plant yn dysgu am Santes Dwynwen trwy gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau hwylus gan gynnwys creu cardiau a thorri siapiau calonnau allan o does.

Mae ymarferwyr yn cynllunio ystod dda o brofiadau dysgu diddorol sy'n ennyn diddordeb rhan fwyaf y plant ac yn adeiladu ar ddysgu blaenorol yn llwyddiannus. Maent yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn trefnu profiadau dysgu ar draws yr holl feysydd dysgu yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn cynllunio'n ddigon manwl ar gyfer datblygu medrau'r plant trwy ddefnyddio'r ardal allanol. Yn ogystal, prin yw'r cyfleoedd i blant ddysgu am sut i ofalu am bethau byw, er enghraifft trwy blannu a gofalu am blanhigion. Yn gyffredinol, mae'r ymarferwyr yn defnyddio

canfyddiadau arsylwadau ac asesiadau o gynnydd y plant wrth gynllunio profiadau dysgu a'r camau nesaf yn y dysgu yn addas. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o'r hyn y mae'r plant yn ei wneud yn dda a'r hyn sydd angen ei ddatblygu.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau eu bod yn datblygu medrau plant mewn ffordd hwylus ac effeithiol trwy gynllunio ystod o arferion a phrofiadau dysgu buddiol. Mae'r holl ardaloedd dysgu tu mewn yn cefnogi hyn yn dda ac yn annog y plant i ymchwilio ac i ddarganfod drostynt eu hunain, er enghraifft trwy drefnu sanau mewn i barau ac i ddioli gwrthrychau yn ôl lliw. Maent yn datblygu medrau rhifedd y plant yn naturiol trwy ystod addas o brofiadau dysgu sy'n datblygu eu dealltwriaeth o waith rhif, siâp a datrys problemau yn addas. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n briodol ar gyfer datblygu medrau creadigol y plant trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau celf fel creu murlun am yr hydref a chreu dyn eira allan o wahanol ddeunyddiau. Maent yn darparu cyfleoedd cadarn i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant. Er enghraifft, maent yn defnyddio apiau i ymarfer eu dealltwriaeth o rifau hyd at ddeg a thrwy drin a thrafod gwrthrychau fel y ffôn a'r til wrth chwarae yn y cornel chwarae rôl.

Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd addas o ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant, er enghraifft trwy wahodd awdur enwog i ymweld â'r lleoliad i ddathlu Diwrnod y Llyfr. Fodd bynnag, prin yw'r defnydd o'r gymuned leol i gefnogi'r dysgu trwy ymweld â lleoliadau cyfagos neu drwy wahodd ymwelwyr i rannu profiadau gyda'r plant. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau cyfoethog i ddatblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Er enghraifft, mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweddi yn ddyddiol ac yn dysgu am fywyd mewn gwlad oer trwy wrando ar stori am blentyn o Ganada.

Yr amgylchedd: Digonol

Mae'r amgylchedd tu mewn yn hynod ddiogel a glân, ac o ganlyniad, yn hyrwyddo diogelwch a lles plant yn dda. Mae gan arweinwyr drefniadau cadarn ar gyfer derbyn ymwelwyr i'r adeilad ac mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau diogelwch effeithiol pan fydd plant yn cyrraedd a gadael y safle. Mae'r ymarferwyr yn adnabod yr holl risgau perthnasol, ac yn sicrhau bod y plant yn ddiogel, er enghraifft cadw'r llawr yn daclus ac yn lân er mwyn osgoi'r plant yn baglu. Sicrheir bod yr asesiadau risg a gwiriadau diogelwch yr offer tân a thrydanol yn gyfredol.

Mae plant yn cael gofal da mewn ystafell sydd wedi'i gosod allan yn bwrpasol i hyrwyddo'u hannibyniaeth a'u hannog i ddysgu a datblygu. Gwneir defnydd da o'r amgylchedd tu mewn gan fod ardaloedd chwarae ysgogol wedi'u creu gan gynnwys ardaloedd adeiladu a darganfod. Ceir amrywiaeth o adnoddau ymhob ardal sydd o fewn cyrraedd rhwydd y plant sydd yn hybu eu hannibyniaeth. Mae'r amgylchedd yn groesawgar a diddorol a cheir arddangosfeydd niferus o bosteri a gwaith crefft y plant, gyda llawer ohonynt o fewn cyrraedd y plant. Mae'r amgylchedd yn gynhwysol ac mae pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i'r holl adnoddau a gweithgareddau amrywiol. Gall y plant fynd i'r toiled a defnyddio'r basnau golchi dwylo yn annibynnol. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr wedi sefydlu ardal allanol pwrpasol i'r plant ddatblygu eu medrau corfforol yn ogystal ag ymchwilio a darganfod drostynt eu hunain. Er bod yr ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael defnydd o'r buarth, y cae a chyfarpar dringo'r ysgol, nid ydynt yn cynllunio'n fwriadus ar gyfer y sesiynau hyn.

Mae gan y lleoliad gyflenwad da o adnoddau sy'n briodol i oedran a datblygiad y plant. Mae'r adnoddau yn hygyrch i'r plant ac maent yn cael eu storio mewn bocsys lefel isel gyda labeli Cymraeg a lluniau i alluogi'r plant i wneud dewisiadau da ynglŷn â'u chwarae. Mae ystod eang o deganau ac offer i hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol y plant, gan gynnwys llyfrau a doliau addas. Ceir dewis o adnoddau i blant ddysgu am gynaliadwyedd wrth greu modelau jync ac ailgylchu papur a chardfwrdd. Yn ogystal, mae ystod addas o adnoddau ar gael o fewn y lleoliad i ddatblygu medrau TGCh y plant gan gynnwys llechen gyfrifiadurol ac adnoddau sain.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan y ddau arweinydd dros dro ddealltwriaeth gadarn o fywyd a gwaith y lleoliad ac maent yn cydweithio'n llwyddiannus er mwyn gwireddu'r weledigaeth. Mae'r weledigaeth hon yn seiliedig ar ddarparu gwasanaeth o safon uchel o ran lles, gofal ac addysg trwy gyfrwng y Gymraeg i blant yr ardal leol. Mae'r ddau arweinydd wedi cydweithio'n effeithiol gyda'r ysgol, aelodau'r pwyllgor rheoli a rhanddeiliaid eraill i sefydlu darpariaeth bwrpasol yn ei lleoliad newydd o fewn yr ysgol leol. O fewn amser byr, maent wedi creu ethos gofalgwr ac amgylchedd ysgogol sy'n bodloni gofynion y plant yn llwyddiannus. Mae'r ddau arweinydd dros dro yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn cynllunio a thrafod bywyd a gwaith y lleoliad. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o anghenion y plant a'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth.

Mae gan y lleoliad gyflenwad addas o staff sy'n gymwys i weithio gyda'r ystod o blant sy'n mynychu. Mae gweithdrefnau priodol yn eu lle er mwyn sicrhau bod y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n ac yn cyfrannu'n werthfawr i gyflawni nodau ac amcanion y lleoliad. Mae'r ddau berson cofrestredig yn gwerthuso gwaith ymarferwyr yn briodol er mwyn penodi targedau addas ar eu cyfer. Mae'r ymarferwyr yn mynychu hyfforddiant buddiol sy'n berthnasol i'w gwaith trwy fynychu cyrsiau allanol yn ogystal ag ymweld ag arfer dda mewn lleoliadau eraill. Er enghraifft, maent wedi mynychu cyrsiau priodol ar sut i wella'r amgylchedd dysgu i hybu annibyniaeth y plant. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at eu datblygiad proffesiynol yn ogystal â gwella ansawdd y ddarpariaeth a chyflawniad y plant.

Mae gan arweinwyr drefniadau addas ar gyfer hunanwerthuso ansawdd y ddarpariaeth a'i heffaith ar ddeilliannau plant. Maent yn ystyried canfyddiadau asiantaethau allanol, fel athrawes gefnogol yr awdurdod lleol, yn dda fel rhan o'r broses. Maent hefyd wedi llwyddo i ganfod barn rhieni yn fedrus cyn mentro ar ehangu'r ddarpariaeth i gynig addysg a gofal i blant. Yn gyffredinol, mae'r defnydd o'r gweithdrefnau hunanwerthuso hyn yn sicrhau bod gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o'r cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae'r cynllun gwella yn cynnwys camau gweithredu pwrpasol ynghyd â therfynau amser a chostau perthnasol. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr yn monitro cynnydd yn erbyn y targedau hyn yn ddigon effeithiol nac yn cymryd digon o gyfrifoldeb am fonitro ansawdd y ddarpariaeth.

Mae gan y lleoliad bartneriaethau gwerthfawr gydag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys staff yr ysgol leol, athrawes gefnogol yr awdurdod lleol a swyddog Mudiad Meithrin. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a deilliannau plant. Mae'r berthynas fuddiol gydag ysgolion lleol yn sicrhau bod plant yn trosglwyddo'n esmwyth ac yn gyfarwydd â'r staff a'r trefniadau. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol gyda rhieni gan gynnwys trefnu nosweithiau arbennig i godi arian.

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (<http://careinspectorate.wales>) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau
Gwael	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 31/03/2020